Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Heol y Bardd, Porth Tywyn,
Sir Gaerfyrddin SA16 0NL
Ffôn:- 01554 832101
Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru
www.ysgolparcytywyn.co.uk
Pennaeth / Headteacher : Mrs A Williams

# Canlyniad Ymgynghoriad Rhieni

23.05.25

Annwyl Riant/Gwarchodwr,

Yn dilyn y llythyr a anfonwyd at rieni ar 7.05.25 rhannwyd holiadur i gasglu eich barn ar y newidiadau arfaethedig i'r diwrnod ysgol. Yn ogystal, cynigwyd y cyfle i rieni drafod neu wrthwynebu'r cynnig yn ystod cyfarfod a gynhaliwyd ar 21.05.25. Ar ôl ystyried yn ofalus yr holl adborth a dderbyniwyd, mae'r Corff Llywodraethol bellach wedi cyfarfod ac wedi cytuno i fwrw ymlaen â'r cynnig.

O Fedi'r 1af 2025 bydd y diwrnod ysgol newydd fel a ganlyn:

**Amser cychwyn:** 08:50

**Amser gorffen:** 14:50 - Meithrin i Flwyddyn 2
15:05 - Blwyddyn 3 - 6

**Clwb Brecwast** i gychwyn am **08:00**, a bydd drysau'r neuadd yn cau'n brydlon am **08:15**.

**Trefn Gollwng a Chasglu**

- Y brif glwyd yn agor ar gyfer gollwng am 08:40 ac yn cau'n brydlon am 08:50.
- Y brif glwyd yn agor ar gyfer casglu'r Meithrin i Flwyddyn 2 am 14:45 ac yn cau yn brydlon am 15:00.
- Bydd disgyblion o Flwyddyn 3 – 6 yn cael eu casglu o ddrws penodedig ym mlaen yr ysgol (Prif fynedfa, Stiwdio neu Brif Neuadd).
- Bydd mwy o fanylion yn cael eu rhannu yn ein Cyfarfod Croeso i Rieni ar ôl hanner tymor.

****Casglu ar ddiwedd y dydd**** - Os oes gennych blant mewn mwy nag un flwyddyn ysgol sydd yn gorffen ar amseroedd gwahanol, byddwn yn cadw'r ieuengaf a galluogi i chi gasglu pawb am 15:05. Bydd hyn yn eich helpu i osgoi aros am hyd at 15 munud rhwng amseroedd casglu gwahanol.

**Clybiau ar ôl ysgol** - Darperir rhagor o wybodaeth am weithgareddau ar ôl ysgol cyn dechrau'r flwyddyn ysgol nesaf.

Hoffem ddiolch i'r holl rieni, gwarchodwyr ac aelodau o gymuned ein hysgol a roddodd o'u hamser i rannu eu barn a chymryd rhan yn y broses ymgynghori. Mae eich mewnbwn yn cael ei werthfawrogi ac yn chwarae rhan bwysig wrth ein helpu i symud ymlaen er lles gorau ein disgyblion a chymuned yr ysgol.

Edrychwn ymlaen at weithredu'r amseroedd newydd ym mis Medi ac at gydweithio'n agos gyda chymuned yr ysgol i gefnogi ein disgyblion ymhellach.

Cofion cynnes,
A Williams
Pennaeth / Headteacher